WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2016 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Blwyddyn archwilio: 2016

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 632A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer ar gyfer ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau o ran datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys Jackie Joyce, Matthew Coe, Joanne McCarthy, Neall Hollis dan arweiniad of Dave Thomas.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol, ac wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â chanfyddiadau'r flwyddyn flaenorol. Mae heriau'n parhau o ran darparu sefyllfa ariannol gytbwys, gwella'r system adrodd a rheoli prosiect, a chyflymu'r broses o fynd i'r afael ag argymhellion yn ymwneud â rheoli gwybodaeth a thechnoleg.


Crynodeb

Cyd-destun 5

Prif ganfyddiadau 6

Argymhellion 9

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth dda o'r gyllideb ac i fonitro cynlluniau arbed arian yn effeithiol. Mae ganddo hanes o gyrraedd cydbwysedd ariannol ac mae wedi gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid gyda chynllunio ariannol, ond mae heriau sylweddol yn parhau o ran darparu sefyllfa ariannol gytbwys ar gyfer 2016-17 12

Mae agwedd y Bwrdd Iechyd tuag at gynllunio ariannol yn parhau i aeddfedu gyda mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid nag yn y blynyddoedd a fu, a threfniadau cadarn ar gyfer gosod cyllideb 12

Mae rheoliadau ariannol yn ystod y flwyddyn yn gweithio'n briodol ac yn sicrhau stiwardiaeth dda, er bod angen dogfennu a gweithredu rhai agweddau mewn modd mwy cyson 13

Mae trefniadau adrodd ariannol yn darparu gwybodaeth briodol i'r Bwrdd allu gwneud penderfyniadau ac maent yn cefnogi camau adfer os oes angen 14

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau canlyniadau yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac er ei fod yn rhagweld sefyllfa lle bydd yn adennill costau yn 2016-17, mae'r heriau'n ymwneud â sicrhau'r arbedion a gynllunnir yn creu risg na fydd hyn yn cael ei gyflawni 14

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion rheoli a chynllunio ariannol 16

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a chynllunio strategol yn ystod 2016, ond mae lle, fodd bynnag, i wella systemau adrodd a rheoli prosiect yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac mae angen mynd i'r afael ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg ar frys 17

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei agwedd tuag at gynllunio strategol ac mae trefniadau monitro effeithiol ar waith, ond mae lle i wella system adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac i ymestyn trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni 18

Mae trefniadau sicrwydd y bwrdd yn parhau i aeddfedu ac mae pwyllgorau'n gweithredu'n effeithiol ar y cyfan, er bod angen mwy o amser i fewnosod newidiadau diweddar i ambell bwyllgor 25

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion 2015 ond mae'r cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio eraill yn ymwneud â rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn araf 34

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016 36

# Crynodeb

## Cyd-destun

1 Mae'r asesiad strwythuredig yn archwilio trefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) i gefnogi llywodraethu da, a'r defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r gwaith yn asesu cadernid trefniadau rheolaeth ariannol, digonolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaeth galluogwyr allweddol sy'n cefnogi'r gwaith o ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithiol, a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â materion gwelliant a nodwyd yn flaenorol. Dangosodd ein gwaith yn 2015 fod trefniadau Llywodraethu'n parhau i esblygu, ond bod ambell agwedd, yn enwedig TGCh, yn gwneud cynnydd annigonol, a bod cyflawni cydbwysedd ariannol ar gyfer 2015-16 yn parhau'n heriol.

2 Mae gwaith asesu strwythuredig yn 2016 unwaith eto wedi adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Eleni, rydym hefyd wedi cynnal gwaith cymharol mewn tri maes. Mae'r meysydd a ddewiswyd a'r cwmpas yn seiliedig ar ein dadansoddiad ein hunain o faterion ar draws Cymru a thrafodaeth gydag ysgrifenyddion bwrdd. Mae'r meysydd gwaith cymharol yn cynnwys:

- fformat cyflwyno adroddiadau ariannol i'r bwrdd;
- trefniadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Byr Integredig a monitro ac adrodd ar ddarpariaeth y cynlluniau yma[1]; ac
- agweddau tuag at fapio risg a sicrwydd a datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd[2].

3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion ein canfyddiadau archwilio lleol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Ar ôl cwblhau adroddiadau archwilio lleol, byddwn yn cynnal dadansoddiadau Cymru gyfan ar y tri maes o waith cymharol, i'w rannu gyda sefydliadau GIG a fforymau eraill perthnasol ar draws Cymru gyfan, megis cyfarwyddwyr ariannol, cyfarwyddwyr cynllunio a grwpiau ysgrifenyddion bwrdd. Bwriad yr arddull hwn yw cefnogi addysg, gan rannu agweddau ac arferion da ar draws sefydliadau GIG. Bydd cyhoeddiad ein dadansoddiad cymharol o ddatblygiad Cynlluniau Tymor Byr Integredig yn cael ei gyflynu gydag adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cenedlaethol ar Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Cenedlaethol (Cymru) 2014), a gynllunnir ar gyfer dechrau 2017.

[1] Lle nad oes Cynllun Tymor Byr Integredig, rydym wedi ystyried y cynllun blynyddol.

[2] Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn nodi'r risg i gyflawni amcanion corfforaethol, rheolau mewnol ar gyfer lleihau'r risgiau hynny a'r sicrwydd sydd ei angen ar y bwrdd i wybod bod y rheolau'n effeithiol a bod y risgiau'n cael eu rheoli.

4 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau, arsylwadau o bwyllgorau, adolygiadau o ddogfennau a data perfformiad, adroddiadau gwybodaeth gan ysgrifenyddion bwrdd a chyfarwyddwyr cynllunio a chanlyniadau arolwg aelodau bwrdd. Cafwyd ymateb gan 119 aelod o'r bwrdd i'n harolwg, cyfradd ymateb o 59%. Roedd hynny'n cynnwys 12 ymateb (cyfradd ymateb o 50%) gan y Bwrdd Iechyd. Hoffem ddiolch i'r aelodau hynny o'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u mewnbwn.

5 Yn ystod 2016 cynhaliodd y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o weithgareddau gyda'r nod eang o sicrhau bod y sefydliad yn addas at y diben. Cynhaliwyd adolygiad o bortffolios ac atebolrwydd rheolaeth er mwyn ailosod arweinyddiaeth ac atebolrwydd y gweithlu i gynorthwyo i ddarparu amcanion strategol[3]. Ceir ymagwedd gam wrth gam gyda'r cam cyntaf yn adolygu portffolios gweithredol a newidiadau arfaethedig ar lefel cyfarwyddwr cynorthwyol. Mae'r ail gam yn ymwneud â rheolwyr cyfarwyddiaeth ac is-strwythurau. Rhagwelir y bydd y broses o benodi i strwythur rheolaeth ddiwygiedig yn cychwyn yn fuan ac wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2017. Bydd atebolrwydd a chyfrifoldebau yn y strwythur newydd a'r swydd ddisgrifiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad pan fydd wedi'i gwblhau.

6 Yn ogystal â newidiadau strwythurol, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant i ddatblygu gallu a chapasiti rheolaeth gan gynnwys y canlynol:

- Mae "Perfformiad ar waith o fewn Cwm Taf" (PACT), a lansiwyd ym mis Tachwedd 2015, yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer rheolwyr cyfarwyddiaeth a phartneriaid busnes.
- Mae Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheoli Hanfodol (Essential Leadership and Management Skills), a lansiwyd ym mis Chwefror 2016, yn rhaglen ddatblygu ar gyfer arweinwyr tîm, goruchwylwyr a rheolwyr.
- Mae Twf Graddedigion, a lansiwyd ym mis Chwefror 2016 yn rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth dwy flynedd ar gyfer graddedigion. Mae nifer y llefydd sydd ar gael wedi cynyddu i 15 ac mae cyrff iechyd eraill wedi ymuno â'r cynllun.

# Prif ganfyddiadau

7 Ein prif gasgliad o waith asesiad strwythuredig 2016 yw bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol, ac wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â chanfyddiadau'r flwyddyn flaenorol. Mae heriau yn dal i fodoli o ran darparu sefyllfa ariannol gytbwys, gwella systemau adrodd a rheoli prosiect, a chyflymu'r gwaith o fynd i'r

[3] Dogfen Ymgynghorol Portffolios Gweithredol ac Atebolrwydd Rheolaeth i Staff, Gorffennaf 2016

afael ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg.
Crynhoir y rhesymau dros gyrraedd y casgliad hwn isod.

## Cynllunio a rheolaeth ariannol

8 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth dda o'r gyllideb, ac yn monitro cynlluniau cynilo mewn modd effeithiol. Mae ganddo hanes o gyrraedd cydbwysedd ariannol, fodd bynnag, mae her sylweddol yn parhau ar gyfer darparu sefyllfa arian gytbwys yn 2016-17.

### Cynllunio Ariannol

9 Mae agwedd y Bwrdd Iechyd tuag at gynllunio ariannol yn parhau i aeddfedu gyda mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid nag yn y blynyddoedd a fu, a threfniadau cadarn ar gyfer gosod cyllideb. Mae agwedd gadarn tuag at gynllunio ariannol a chynllunio tymor byr integredig yn gyffredinol, wedi iddynt ychwanegu Cynllun Ymgysylltu yn 2016-17 er mwyn gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid gyda'r broses gosod cyllideb. Ceir mwy o agwedd o'r bôn i'r brig o ran adnabod arbedion gan gyfarwyddiaeth yn 2016-17, ochr yn ochr â themâu trawsbynciol ar gyfer arbedion, a dylai hynny roi mwy o atebolrwydd a realaeth i'r broses.

### Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth

10 Mae rheoliadau ariannol yn ystod y flwyddyn yn gweithio'n briodol ac yn sicrhau stiwardiaeth dda, er bod angen dogfennu a gweithredu rhai agweddau mewn modd mwy cyson. Mae rolau a chyfrifoldebau clir wedi'u gosod yn y Fframwaith Cynllunio Lleol, er gallent fod yn cael eu cofnodi mewn modd mwy cyson ar gyfer y staff sy'n arwain ar y themâu trawsbynciol ar gyfer cynlluniau cynilo. Nid yw'r cylch gorchwyl ar gyfer Cyfarfodydd Busnes Clinigol mewn lle hyd yn hyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn chwarae rôl weithredol, fel rhan o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ehangach, o ran monitro rheolaeth ariannol gan dynnu o waith archwilio mewnol ac allanol mewn modd priodol ynghyd â'r Gwasanaeth Atal Twyll Lleol.

### Monitro ac adrodd ariannol

11 Mae trefniadau adrodd ariannol yn darparu gwybodaeth briodol i'r Bwrdd allu gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi camau adfer os oes angen. Mae'r Bwrdd yn ymateb mewn modd agored a thryloyw i risgiau a materion a nodwyd a cheir adroddiadau cyson, dibynadwy ac amserol ar lefel weithredol ac i'r Bwrdd. Ceir monitro gweithredol trwy nifer o grwpiau ar lefel weithredol a'r Bwrdd, gan gynnwys Cyfarfodydd Busnes Clinigol gyda chyfarwyddiaeth, a Phwyllgor Perfformiad Ariannol a'r Gweithlu'r Bwrdd. Mae lle ar gyfer mwy o eglurdeb o

ran negeseuon allweddol a chymariaethau â byrddau iechyd lleol eraill yng Nghymru mewn adroddiadau i’r Bwrdd a’r Bwrdd Gweithredol. Ar y cyfan, mae adroddiadau ariannol yn cynnig cipolwg sy’n darparu gwybodaeth ar gyfer dylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

### Perfformiad ariannol

12 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau canlyniadau yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae ganddo hanes o lwyddiant o ran cwrdd â thargedau a sicrhau cydbwysedd ariannol yn unol â’i gyfrifoldebau statudol a’r Cynllun Tymor Byr Integredig. Roedd cyfran uchel o’i arbedion yn ystod 2015-16 o natur ailadroddus, ac mae’r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn adennill costau unwaith eto yn 2016-17. Er bod cynlluniau cynilo dan y targed ar hyn o bryd, gyda lefel sylweddol o arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer Mawrth 2017, mae lefelau'r gwariant ar fuddsoddiad hefyd yn is na'r targed i raddau tebyg. Mae hynny’n lleihau’r risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau sefyllfa o gydbwysedd ariannol yn 2016-18, fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd reoli'r effaith ar wasanaethau mewn modd effeithiol.

## Llywodraethu a sicrwydd

13 Wrth adolygu trefniadau sicrwydd y bwrdd a llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd, gwelsom fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio strategol a llywodraethu yn ystod 2016, ond mae lle fodd bynnag i wella'r broses o adrodd ar y Cynllun Tymor Byr Integredig er mwyn atgyfnerthu dulliau gweithredu ar draws y sefydliad tuag at reolaeth prosiect a rhaglenni. Er bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb yn dda yn gyffredinol i argymhellion archwiliadau blaenorol, mae angen cyflymu’r cynnydd o'i gymharu â'r hyn a wnaed eisoes o ran rheoli gwybodaeth a thechnoleg.

### Cynllunio ac adrodd strategol

14 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru unwaith eto ar gyfer ei Gynllun Tymor Byr Integredig ac mae wedi sefydlu agwedd tuag at gynllunio strategol sy’n cynnwys canllawiau cynllunio lleol wedi'u dogfennu sydd ar gael bob blwyddyn er mwyn i gyfarwyddiaeth allu cynhyrchu eu cynlluniau eu hunain. Mae’r model partner busnes bellach yn agwedd arferol ac effeithiol o’r trefniadau ac mae’r Swyddfa Rheoli Prosiect bellach wedi’i staffio’n llawn. Mae trefniadau adrodd ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i ddatblygu, er bod lle i ymestyn y rhaglen a’r agweddau a’r fethodoleg rheoli prosiect ar draws y sefydliad.

## Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd

15 Mae trefniadau ar gyfer datblygu ac ymwreiddio'r fframwaith sicrwydd y bwrdd yn dal i aeddfedu. Mae'r bwrdd a'i bwyllgorau'n gweithredu'n effeithiol ac mae gwelliannau wedi'u gwneud o ran tryloywder adrodd cyhoeddus. Mae'r newidiadau diweddar i'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg yn gadarnhaol ond bydd angen mwy o amser cyn y byddant yn gwbl effeithiol.

16 Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cael fframwaith sicrwydd y bwrdd a dechreuwyd ei ddatblygu yn 2014. Mae'r fframwaith, sydd bellach ar waith, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod trefniadau sicrwydd yn gweithio'n effeithiol. Mae bylchau yn y sicrwydd o ran TGCh ar hyn o bryd, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohonynt ac yn cymryd camau i ymdrin â nhw. Mae ein gwaith cymharol yn dangos fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd a'i datblygiad yn cymharu'n dda gyda chyrff iechyd eraill. Un maes y byddai modd ei wella yw cyfathrebu amcanion strategol mewn modd cliriach er mwyn sicrhau bod modd adnabod y sicrwydd gofynnol i'w darparu.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio blaenorol

17 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig 2015, gyda saith o'r 12 argymhelliad wedi'u gweithredu a chynnydd yn cael ei wneud wrth ymdrin â'r pump arall.
Mae gan y Bwrdd Iechyd adnodd olrhain sy'n cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ac mae ei asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn unol â'n hasesiad ni. Er bod cynnydd da'n cael ei wneud yn gyffredinol wrth weithredu argymhellion archwilio, mae angen cyflymu'r cynnydd o ran ein hargymhelliad yn ymwneud â rheoli gwybodaeth a thechnoleg. O'r 21 argymhelliad a wnaed gennym ym mis Rhagfyr 2015, roedd 13 yn dal heb eu cwblhau ym mis Hydref 2016, ac roedd naw o'r rheini wedi mynd heibio'r dyddiad cwblhau a nodwyd yn ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd.

# Argymhellion

18 Rhoddir manylion yr argymhellion sy'n deillio o waith asesiad strwythuredig 2016 yn Arddangosyn 1. Bydd hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nad ydynt wedi'u cwblhau hyd yn hyn.

19 Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, sy'n amlinellu'r modd y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn yn cael ei gynnwys yn Atodiad 1 unwaith y bydd wedi'i gwblhau ac wedi cael ei ystyried gan y pwyllgor bwrdd perthnasol.

## Arddangosyn 1: argymhellion 2016

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu argymhellion asesiad strwythuredig 2016.

| Argymhellion 2016 |
|---|
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**<br>A1 Er mwyn adnabod gofynion sicrwydd y bwrdd yn well, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• gyfathrebu ei amcanion strategol yn fwy clir gan ddefnyddio is-amcanion neu nodau; a<br>• chynnwys blaenoriaethau Cynllun Tymor Byr Integredig yn ystod y flwyddyn |
| **Pwyllgor Archwilio**<br>A2 Dylai'r Pwyllgor Archwilio:<br>• sicrhau bod ganddo drefniadau priodol mewn lle er mwyn adolygu a monitro sicrwydd yn rheolaidd o fewn y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd; a<br>• datblygu rhaglen waith ar gyfer y dyfodol er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i gynllunio ac amserlennu cyfarfodydd. |
| **Effeithlonrwydd pwyllgorau**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod:<br>• pob adroddiad i'r Bwrdd a phwyllgorau'n mabwysiadu'r templed adroddiadau diwygiedig; a<br>• bod y templed adroddiadau'n cael ei ddefnyddio i gyfathrebu pwrpas yr adroddiad yn glir ynghyd â'r weithred/penderfyniad gofynnol pan fo cynlluniau a pholisïau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau. |
| **Effeithlonrwydd pwyllgorau**<br>A4 Cwblhau llunio a gweithrediad y strwythurau cefnogi ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg sydd newydd ei greu. |
| **Adroddiadau Allanol**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau o'r Uned Gyflawni yn destun i drefniadau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. |
| **Dilyniant ar y cyd o archwiliadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg**<br>A6 Edrych ar ba mor sydyn yr ymdrinnir ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg sydd heb eu cyflawni hyd yn hyn. |
| **Rheolaeth ariannol**<br>A7 Atgyfnerthu trefniadau presennol ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol trwy:<br>• gytuno ar swyddi a chyfrifoldebau cyson ar gyfer staff sy'n arwain ar y themâu trawsbynciol ar gyfer arbedion ariannol; a<br>• chytuno ar ymagwedd a chylch gorchwyl cyson ar gyfer Cyfarfodydd Busnes Clinigol yn unol ag argymhelliad Archwiliad Mewnol. |

| Argymhellion 2016 |
| --- |
| **Perfformiad ariannol** |
| A8 Atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynlluniau cynilo yn erbyn targedau gan sicrhau bod atebolrwydd, dealltwriaeth ac adroddiadau clir i egluro pam na chafodd arbedion eu gwneud. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddangos rheolaeth dda o’r gyllideb ac i fonitro cynlluniau cynilo yn effeithiol. Mae ganddo hanes o gyflawni cydbwysedd ariannol ac mae wedi gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid o ran cynllunio ariannol, ond mae heriau sylweddol yn parhau o ran darparu sefyllfa ariannol gytbwys yn 2016-17

20 Mae ein gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol ac i greu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hirach. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, yr agwedd tuag at gynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â rheolaeth ariannol. Gweler ein canfyddiadau isod.

### Mae agwedd y Bwrdd Iechyd tuag at gynllunio ariannol yn parhau i aeddfedu gyda mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid nag yn y blynyddoedd a fu, a threfniadau cadarn ar gyfer gosod cyllideb

21 Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella ac i fireinio ei agwedd tuag at gynllunio ariannol. Yn benodol, rydym wedi nodi bod:

- Trefniadau ar gyfer refeniw a gosod cyllideb yn parhau i fod yn gadarn, ac mae rôl a chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn cael eu gosod yn glir yn y Fframwaith Cynllunio Lleol. Mae’r Fframwaith hwn hefyd yn gosod prosesau a gweithgareddau cyllidebu er mwyn gosod cyllidebau cyfarwyddiaeth a lleol.
- Mae Cynllun Ymgysylltu wedi cael ei roi mewn lle eleni er mwyn gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid gyda’r Cynllun Tymor Canolig Integredig a phrosesau gosod cyllidebau.
- Mae her gadarn yn parhau o ran y Cynllun Tymor Canolig Integredig a rheolaeth ariannol gyda sefydliad Panel Craffu a Chefnogi’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn 2015-16, a’r craffu parhaus gan y Bwrdd o dybiaethau ariannol, gwasanaeth a’r gweithlu sy’n sylfaen i’r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

- Mae cyllidebau cyfarwyddiaeth a lleol yn gysylltiedig â’r Cynllun Tymor Byr Integredig, ac mae cynllunio gwasanaethau a thybiaethau'n ymwneud â'r gyllideb yn bwydo i mewn i gynlluniau darparu gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth. Mae'r broses o ganfod cynlluniau cynilo wedi esblygu unwaith eto eleni i arddull matrics. Mae hynny wedi galluogi agwedd sy’n gweithredu’n fwy o’r bôn i’r brig i gyfarwyddiaethau er mwyn adnabod cynlluniau cynilo yn erbyn targed o arbedion o 3% ar draws y Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd. Uwchlaw hynny, ceir nifer o themâu trawsbynciol ar draws y Bwrdd Iechyd sydd heb eu hintegreiddio’n gyson gyda chynlluniau’r Cyfarwyddiaethau hyd yn hyn.
- Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r hyblygrwydd ariannol sydd ar gael fel rhan o Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol newydd (ar gyfer y cyrff sydd â Chynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gymeradwyo). Mae hynny oherwydd bod y Bwrdd Iechyd yn teimlo bod angen i'w cynllunio ariannol eu hunain aeddfedu ymhellach, a hefyd am nad yw'n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu'r hyblygrwydd hwn o ystyried natur flynyddol ariannu'r sector cyhoeddus.

## Mae rheoliadau ariannol yn ystod y flwyddyn yn gweithio’n briodol ac yn sicrhau stiwardiaeth dda, er bod angen dogfennu a gweithredu rhai agweddau mewn modd mwy cyson.

22 Fel y nodwyd yn ein hadolygiad o Asesiad Strwythuredig 2015, mae trefniadau boddhaol mewn lle ar gyfer rheolaeth ariannol a stiwardiaeth dda. Gweler y canlynol:

- Fel rhan o brosesau’r Cynllun Tymor Byr Integredig a’r Fframwaith Cynllunio Lleol, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheolaeth ariannol ac atebolrwydd yn glir, er nad yw'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn wedi cael eu dogfennu’n gyson ar gyfer y staff sy’n ar gyfer y staff sy'n arwain ar y themâu trawsbynciol ar gyfer cynlluniau cynilo.
- Ceir gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol er mwyn monitro'r sefyllfa ariannol ar draws y Bwrdd Iechyd gan gynnwys Cyfarfodydd Busnes Clinigol ar lefel cyfarwyddiaeth, y Pwyllgor Perfformiad Ariannol a’r Gweithlu, a’r Bwrdd. Fodd bynnag, nodwyd yn yr Archwiliad Mewnol nad yw’r cylch gorchwyl ar gyfer Cyfarfodydd Busnes Clinigol ar waith yn gyson hyd yn hyn.
- Mae’r risgiau o wneud colledion ariannol yn cael eu hasesu a'u lleihau drwy'r adroddiadau monitro misol a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn ogystal ag ar lefelau amrywiol o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae’r Bwrdd yn parhau i dderbyn adroddiadau ariannol ym mhob cyfarfod yn dangos y sefyllfa bresennol, risgiau allweddol a'r cynnydd hyd yn hyn. Mae’r wybodaeth fewnol hon yn cyd-fynd â’r ffigyrau a’r negeseuon yn

ymwneud â risgiau ariannol amrywiadau mewn cyllidebau a gweithgareddau lliniaru a adroddir bob mis i Lywodraeth Cymru.

- Mae Archwilio Mewnol yn adolygu'r systemau cyllid craidd yn rheolaidd, gan ddod i'r casgliad yn 2015-16 y gallai'r Bwrdd Iechyd dderbyn 'sicrwydd sylweddol' o'r systemau hynny.

## Mae trefniadau adrodd ariannol yn darparu gwybodaeth briodol i'r Bwrdd allu gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi camau adfer os oes angen

23 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau datblygedig mewn lle ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol yn fewnol ac i Lywodraeth Cymru trwy gydol y flwyddyn. Gwelwyd y canlynol:

- Fel y nodwyd uchod, mae trefniadau boddhaol mewn lle ar gyfer monitro ac adrodd ariannol, ac mae'r Bwrdd yn ymateb mewn modd agored a thryloyw i'r risgiau a'r problemau a nodwyd. Er bod adroddiadau cyson, dibynadwy ac amserol ar lefelau gweithredol a lefel y Bwrdd gan ddefnyddio'r ddogfen Dangosfwrdd Cynllun Tymor Byr Integredig, mae adroddiadau i'r Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i fod yn fanwl iawn. Mae lle ar gyfer mwy o eglurdeb o ran negeseuon allweddol a chymariaethau â byrddau iechyd lleol eraill yng Nghymru.
- Ar y cyfan, mae adrodd ariannol yn cynnig cipolwg sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer dylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau. Mae gweithwyr clinigol a gwasanaeth proffesiynol yn derbyn gwybodaeth ariannol amserol ac maent wedi ymgysylltu'n llwyr gyda monitro lefel gwasanaeth fel rhan o'r Cyfarfodydd Busnes Clinigol. Mae Panel Craffu a Chefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth sy'n eu galluogi i ystyried darpariaeth cynlluniau cynilo, y rhesymau wrth wraidd amrywiadau i'r gyllideb, ac ymatebion posibl.
- Fel rhan o broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae'r Bwrdd yn ystyried costau ariannol a'u goblygiadau er mwyn cefnogi penderfyniadau ac wrth graffu ar gynlluniau gwasanaeth newydd.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau canlyniadau yn erbyn ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac er ei fod yn rhagweld y bydd wedi adennill costau ar gyfer 2016-17, mae'r heriau o ddarparu'r arbedion a gynlluniwyd yn creu risg na fydd hynny'n cael ei gyflawni


24 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gwrdd â thargedau ariannol a sicrhau cydbwysedd ariannol yn unol â'i gyfrifoldebau statudol a'i Gynllun Tymor

Canolig Integredig, ac yn rhagweld y bydd yn adennill costau unwaith eto eleni. Gwelwyd bod:

- Y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu sefyllfa ariannol yn unol â gofynion y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'i ragolygon yn yr adroddiadau monitro misol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Yn 2015, llwyddodd y Bwrdd Iechyd unwaith eto i sicrhau sefyllfa ariannol o adennill costau, ac adroddwyd arbedion o £11.4 miliwn yn erbyn targed o £14.6m (neu 78%). O'r arbedion a adroddwyd, roedd £9.8m neu 86% o'r arbedion yn gylchol sy'n cymharu'n ffafriol gyda chyrff GIG eraill yng Nghymru. Bydd hi'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd edrych ar gynyddu lefel arbedion cylchol ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella ei sefyllfa ariannol sylfaenol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.
- Ceir hunanddibyniaeth ar ddarparu'n unol â'r cynllun heb fod angen cymorth ariannol ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Erbyn mis 6, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ragweld y byddant mewn sefyllfa o fod wedi adennill costau ar gyfer 2016-17, ond mae hynny'n ddibynnol ar ddarparu lefel sylweddol o arbedion ym mis olaf y flwyddyn ariannol fel y nodir yn Arddangosyn 2 isod:
- Roedd cynlluniau cynilo dan y targed am bum mis cyntaf y flwyddyn, cyn dal i fyny'n sylweddol ym mis 6 (mis Medi). Roedd yr union arbedion ar gyfer y flwyddyn hyd ddiwedd mis Medi 2016 yn £4.9m - £0.7m dan y targed o £5.6m. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, lleihawyd y targed arbedion gwreiddiol o £14m a osodwyd ym mis Ebrill 2016 i £11.1m ym mis Medi 2016. Yn yr adroddiad monitro diweddaraf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod cyllideb llithriad afreolaidd o £5m ar gael er mwyn cydnabod oediad wrth weithredu'r cynlluniau ar gyfer arbedion cylchol.
- Golyga hynny bod risg sylweddol yn dal i fodoli na fydd y Bwrdd Iechyd yn darparu sefyllfa ariannol gytbwys yn 2016-17.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth y gallai, nac ychwaith bod, darpariaeth sefydliadol na diogelwch y gwasanaethau wedi cael eu heffeithio er mwyn sicrhau perfformiad llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

Arddangosyn 2: Camau darparu'r cynllun cynilo yn 2016-17

Mae'r graff yn dangos yr arbedion arfaethedig fis ar ôl mis drwy gydol 2016-17




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion cynllunio a rheolaeth ariannol blaenorol

25 Yn 2015, fe wnaethom yr argymhellion canlynol yn ymwneud â rheolaeth cynllunio ariannol. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed ar argymhellion rheolaeth ariannol 2015

Mae'r tabl yn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015 yn ymwneud â rheolaeth ariannol.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A1 2015<br>Bydd gwell ymgysylltiad rhanddeiliaid yn allweddol ar gyfer darparu effeithlonrwydd ac arbedion cynaliadwy. Er bod hwn yn broses barhaus, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:<br>• bod cynlluniau cynilo 2015-16 yn cael eu cymeradwyo; a<br>• bod cynlluniau cynilo cyfarwyddiaeth 2016-17 yn cael eu cymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. | **Wedi'i gwblhau**<br>• Mae Cynllun Ymgysylltu wedi cael ei roi ar waith fel rhan o'r broses Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2015-16 er mwyn gwella lefel ymgysylltiad rhanddeiliaid o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r dull o adnabod arbedion costau hefyd wedi newid er mwyn darparu mwy o fewnbwn ac atebolrwydd gan y gyfarwyddiaeth er mwyn darparu'r arbedion hynny.<br>• Yn eu Fframwaith Cynllunio Lleol ar gyfer 2016-17, rhoddodd y Bwrdd Iechyd warant y byddai pob Cyfarwyddiaeth glinigol a chorfforaethol yn derbyn canlyniad asesiad eu Cynlluniau Cyfarwyddiaeth 2016-19 erbyn diwedd Ebrill 2016. Cafodd hyn ei gyflawni gydag un eithriad, gydag amgylchiadau unigryw'n gyfrifol am hynny. |
| A2 2015<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd symleiddio ei Ddiweddariadau Cyllid Misol er mwyn sicrhau nad yw negeseuon allweddol yn cael eu colli a'u bod yn haws i'w deall. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae gwaith wedi cael ei wneud i egluro a symleiddio'r broses o adrodd (er mae'n bosibl bod lle am fwy o eglurdeb o ran y negeseuon allweddol a'r rhesymau dros amrywiadau). |

## Parhaodd y Bwrdd Iechyd i atgyfnerthu trefniadau cynllunio strategol a llywodraethu yn ystod 2016, ond mae lle i wella'r broses o adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a rheolaeth prosiect, ac mae angen ymdrin ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg ar frys

26 Bu ein gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 yn archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig ac adrodd ar ddarpariaeth y cynllun, a'r arddull ar gyfer datblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu cyffredinol a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag

argymhellion asesiad strwythuredig blaenorol a materion yn ymwneud â gwelliant. Gweler amlinelliad o'n canfyddiadau isod.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i atgyfnerthu ei agwedd tuag at gynllunio strategol ac mae trefniadau monitro effeithiol mewn lle, ond mae lle i wella'r broses o adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac i ymestyn trefniadau rheolaeth prosiect a rhaglenni

27 Mae'r canfyddiadau sy'n sylfaen i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at gynllunio strategol [4], monitro ac adrodd ar ddarpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Rydym hefyd wedi ystyried y trefniadau sy'n cefnogi datblygiad rhaglenni o newid strategol sy'n sylfaen i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â chynllunio strategol. Gweler ein prif ganfyddiadau isod.

### Cynhyrchwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig o fewn yr amserlen ofynnol, mae wedi bod yn destun craffu a chymeradwyaeth gan y bwrdd ac mae wedi derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru

28 Ymgysylltwyd aelodau'r Bwrdd wrth ddiweddaru Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016-2019 yn ystod sesiynau datblygu'r bwrdd. Mae ein harolwg yn dangos fod Aelodau'r Bwrdd yn bositif ynglŷn â datblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar y cyfan. Mewn ymateb i'r datganiad canlynol 'Rwy'n deall y buddion arfaethedig o symud tuag ar gynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd', roedd saith ymatebydd yn cytuno'n gryf a phump yn cytuno. Roedd pob Aelod o'r Bwrdd naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y Bwrdd Iechyd 'wedi gwella ei agwedd tuag at gynllunio o ganlyniad i Fframwaith Gynllunio'r GIG'.

29 Er i'r Bwrdd gyflwyno ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau ym mis Mawrth 2016, cafwyd problemau'n ymwneud ag amserlennu ar gyfer y terfyn amser a arweiniodd at y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig ym mis Ebrill ac yna'n cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod ei gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 2016. Cytunwyd ar y trefniant hwn gyda Llywodraeth Cymru. Er gwaetha'r problemau amserlennu, cafodd y Bwrdd ei ymgysylltu'n briodol yn natblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fel yn y ddwy flynedd flaenorol,

[4] Nid yw'r gwaith archwilio wedi dyblygu gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond mae wedi ystyried camau a gymerwyd gan gyrff GIG mewn ymateb i unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynllun neu amodau cymeradwyo'r cynllun.

cafwyd cymeradwyaeth unwaith eto gan yr Ysgrifennydd ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, mae'r gymeradwyaeth yn destun i nifer o amodau sy'n ymwneud â chynnal safonau ansawdd, lleihau nifer y cleifion sy'n dod i mewn a gwella llif cleifion, rheoli risg ariannol a sicrhau trefniadau monitro a rheoli perfformiad cadarn. Er bod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ddogfen hirfaith, oddeutu 350 tudalen o hyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu crynodeb ar gyfer y cyhoedd. Ymgysylltwyd rhanddeiliaid, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymunedol, wrth ddatblygu'r crynodeb.

## Ceir model cynllunio strategol clir a digon o allu a chapasiti cynllunio o fewn y Bwrdd Iechyd

30 Mae'r Bwrdd Iechyd yn diweddaru ei arweiniad lleol ar gyfer datblygu cynlluniau tymor canolig integredig ar gyfer cyfarwyddiaethau yn unol â'r arweiniad a gyhoeddir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arweiniad cynllunio lleol yn rhan o fethodoleg y Bwrdd Iechyd i sicrhau trefn gynllunio integredig sy'n dilyn agwedd mwy o'r bôn i'r brig. Mae'r arweiniad yn gosod gofynion gan gyfarwyddiaethau ac yn nodi'n glir 'mai'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yw strategaeth trosfwaol y Bwrdd Iechyd. Felly os nad yw'n cael ei gynnwys yn y cynllun, nid oes bwriad i'w wneud'. Cynhyrchir Cynllun Ymgysylltiad Rhanddeiliaid ar gyfer pob diwygiad i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol wedi ymgysylltu trwy nifer o ddulliau gan gynnwys diweddariadau i Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phedwar fforwm cyhoeddus y Bwrdd Iechyd.

31 Er mai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae cydweithio'n agos yn digwydd gyda chyfarwyddwyr gweithredol cyllid a'r gweithlu i sicrhau ymagwedd integredig ar draws y sefydliad. Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o drefniadau sy'n cefnogi'r ymagwedd cynllunio gan gynnwys Grŵp Cynllunio Integredig sydd eisoes wedi'i sefydlu, Swyddfa Rheoli Rhaglenni a Thîm Cynllunio a Phartneriaethau. Yn ein harolwg o Aelodau'r Bwrdd, roedd pedwar ymatebydd yn cytuno'n gryf ac wyth yn cytuno bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer darparu'r amcanion a'r gweithredoedd allweddol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae gan y strwythur rheoli newydd nifer o nodau, ac un o'r rheini yw sicrhau eglurdeb o ran atebolrwydd a chyfrifoldebau ar gyfer darpariaeth weithredol a bydd y rheini'n cael eu hadlewyrchu yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad.

32 Wrth ymateb i'r arolygon a gynhaliwyd fel rhan o'n Hasesiad Strwythuredig, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod capasiti i gynllunio o fewn y Bwrdd Iechyd yn ddigonol ar gyfer gofynion presennol, ond nodwyd y byddai'n adolygu hynny'n rheolaidd gan ystyried unrhyw newidiadau i ofynion cenedlaethol.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio gwella ei agwedd tuag at ddatblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig yn barhaus ac mae prosesau adolygu mewn lle sydd eisoes wedi'u sefydlu. Mae prosesau'n cynnwys adolygiad blynyddol a gynhelir

gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio a Phartneriaeth, adolygiad a gynhelir gan y Grŵp Cynllunio Integredig, adborth gan PACT (Perfformiad ar waith o fewn Cwm Taf) a'r Fforwm Cyfarwyddwyr Meddygol yn ogystal ag adolygiad annibynnol a gynhelir drwy Archwiliad Mewnol.

34 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau gweithredol allweddol sy’n cefnogi datblygiad ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu model Partneriaid Busnes – mae’r model yn darparu cefnogaeth ar gyfer cynllunio, cyllid a'r gweithlu ac arbenigedd i gyfarwyddiaeth allu datblygu cynlluniau lleol.
- Proses asesu a chymeradwyo - mae hwn wedi cael ei fireinio ymhellach ac mae wedi'i anelu at leihau sawl gwaith y cafodd cynlluniau eu cyflwyno i'w hasesu a'u cymeradwyo. Arweiniodd y broses dwy gam diwygiedig at bob cynllun cyfarwyddiaeth heblaw un yn cael cymeradwyaeth o fewn yr amserlen a nodwyd yn y canllawiau cynllunio lleol. Mae’r broses asesu yn adolygu nifer o agweddau gan gynnwys cynllunio, ansawdd, cyfalaf, gweithlu, arbedion ac asesiad meintiol o gryfder a chydlyniant cynlluniau ariannol. Mae pob cynllun yn derbyn asesiad cyffredinol.

35 O'r 22 asesiad [5] a wnaed mewn perthynas â chynlluniau cynilo, cafodd 10 ohonynt eu graddio’n goch, sy’ golygu nad oeddent yn bodloni'r targed arbedion ariannol gofynnol o 75%. Cafodd 11 cynllun eu graddio’n wyrdd a’r llall yn oren. Gan wybod hyn a'r problemau hysbys o ran perfformio yn erbyn targedau cynilo, mae hwn yn faes y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ail edrych arno er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r rhesymau dros arbedion is na’r hyn sy’n ofynnol, ynghyd â’r heriau i gyflawni'r arbedion yn ystod y flwyddyn.

36 Mae’r rhaglen datblygu PACT newydd ei sefydlu yn rhaglen ffurfiol dros 18 mis ar gyfer rheolwyr cyfarwyddiaeth a’u partneriaid busnes. Er bod y rhaglen wedi’i lunio i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol uwch reolwyr, un canlyniad allweddol yw gwella datblygiad a darpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod adborth gan gyfranogwyr yn gadarnhaol.

## Mae trefniadau sicrwydd effeithiol sy'n parhau i esblygu er mwyn monitro ac adrodd ar gynnydd ynglŷn â darparu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

37 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o drefniadau mewn lle i fonitro ac i adrodd ar gynnydd ar ddarpariaeth ei Gynllun Tymor Canolig Integredig gan gynnwys:

- Cyfarfodydd Busnes Clinigol - ble bydd grŵp craidd bychan o Swyddogion Gweithredol yn cwrdd yn fisol gydag arweinyddion clinigol a rheolwyr pob cyfarwyddiaeth er mwyn rhoi trosolwg a rheolaeth perfformiad o’r gweithrediad cyfan.

[5] Llythyrau Cymeradwyaeth Cyfarwyddiaeth Cynllun Tymor Byr Canolig Integredig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Ebrill 2016

- Cyfarfodydd Busnes Corfforaethol – ble bydd grŵp craidd bychan o Swyddogion Gweithredol yn cwrdd bob yn ail fis gydag arweinyddion rheolaeth ar gyfer pob swyddogaeth gorfforaethol i roi trosolwg a rheolaeth perfformiad.
- Bwrdd Gweithredu - ble bydd y Prif Swyddog Gweithredu'n goruchwylio ei glwstwr o themâu trawsbynciol a gweithgareddau cysylltiedig er mwyn cyflawni taflwybrau gwelliant yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- Bwrdd Rhaglen Gweithredol – ble bydd Swyddogion Gweithredol yn cwrdd yn fisol i roi trosolwg ac i gydlynu holl weithgareddau perfformiad a gwelliant yn y sefydliad sy'n gysylltiedig â rhaglen drawsnewid trawsbynciol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Rhaglen Gweithredol yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol bob chwarter[6].
- Grŵp Cynllunio Strategol - ble bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr Clinigol a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol yn cwrdd yn fisol i reoli'r rhaglen newid strategol.
- Mae adrodd i'r Bwrdd yn digwydd pob chwarter - mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio gwella'r broses adrodd yn unol â nifer o argymhellion a wnaed gennym y llynedd ynglŷn â gwell prosesau adrodd ar gynnydd a chynnydd arfaethedig yng nghyd-destun y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn. Cadarnhaol yw gweld bod y dull sy'n cael ei ddatblygu'n gweld adroddiadau'r ail chwarter yn symud oddi wrth dull naratif yn unig tuag at ddull mwy cryno ar ffurf tabl, ac mae'n anelu at ddull cytbwys ar ffurf cerdyn sgorio. Mae'r adroddiad ar ffurf tabl yn nodi nifer o dargedau cyraeddadwy allweddol, cynnydd a wnaed yn yr ail chwarter, risgiau a'r ffocws ar gyfer y trydydd chwarter. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio gwella'r broses o adrodd cynnydd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy ddatblygu dull 'cerdyn sgorio' a byddwn yn adolygu hwn fel rhan o'n rhaglen waith archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Mae'r adroddiad chwarterol i'r Bwrdd hefyd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o ofynion adrodd cenedlaethol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bwyllgorau hefyd yn derbyn nifer o adroddiadau eraill, ac mae rhai ohonynt yn darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â phrosiectau penodol o fewn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn ogystal â'i adroddiad mesur perfformiad[7] ar draws y bwrdd iechyd i gyd sy'n cynnwys targedau Haen 1 a mesurau eraill a'r adroddiad o'i sefyllfa ariannol.
- Ceir nifer o brosiectau strategol o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd a elwir yn themâu trawsbynciol. Ceir nifer o drefniadau

[6] Cynllun Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd 2016.17 – 2018/19, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Mawrth 2016

[7] Dangosfwrdd Perfformiad Integredig Cwm Taf

monitro ac adrodd sy'n ymwneud a'r Swyddfa Rheoli Prosiect ac fe'u trafodir mewn manylder yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

38 Yn ogystal â'r uchod, mae ein harolwg o Aelodau'r Bwrdd wedi derbyn ymatebion cadarnhaol cyson i'r datganiadau isod:

- 'Mae'r Bwrdd Iechyd wedi meintioli'r buddion y mae'n disgwyl i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig eu darparu';
- 'Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn neilltuo digon o amser i graffu'n effeithiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol'; ac
- 'Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth addas i gefnogi gwaith craffu effeithiol ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig'.

Arddangosyn 4: cynnydd yn ymwneud ag argymhellion adrodd ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig a darparu fframwaith rheoli perfformiad

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A3 2015<br>Sicrhau bod adrodd ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn:<br>• cynnwys cynnydd yng nghyd-destun y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn; ac yn<br>• nodi'n glir y cynnydd a wnaed yng nghyd-destun yr hyn yr oedd y Bwrdd wedi ei gynllunio i gyflawni ar yr adeg honno. | **Ar waith ond heb ei gwblhau hyd yn hyn**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod modd gwneud gwelliannau i'r broses o adrodd ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'n gobeithio datblygu dull cytbwys ar ffurf cerdyn sgorio. |
| 73 2015<br>Datblygu a mabwysiadu Fframwaith Rheoli Perfformiad i wella trefniadau atebolrwydd. | **Ar waith ond heb ei gwblhau hyd yn hyn**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad drafft a fydd yn cael ei gwblhau pan fo'r strwythurau sefydliadol wedi'u cadarnhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cael ei weithredu yn 2017. |

Mae themâu trawsbynciol yn cael eu cefnogi gan y trefniadau rheoli prosiect a rhaglenni ond mae lle i gyflwyno dulliau mwy systematig o reolaeth prosiect ar draws y sefydliad

39 Fel y nodwyd uchod, maer gan y Bwrdd Iechyd wyth rhaglen o newid strategol ar gyfer 2016-17 a elwir yn themâu trawsbynciol sef; Gofal Integredig heb ei Drefnu, Gofal wedi'i Drefnu, Ail-ddylunio Gwasanaethau a Rhesymoli Safle, Gwella Gofal Cleifion Allanol a Gweinyddiaeth Gofal Cleifion, Contractio a Chomisiynu, Cynhyrchiant y Gweithlu, Gofal Iechyd di-dâl a Pharhaus. Mae gan bob thema gyfarwyddwr gweithredol arweiniol yn ogystal ag arweinydd gweithredol.

40 Yn ystod 2015, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Swyddfa Rheoli Prosiect i ddarparu isadeiledd rhaglenni a chyngor arbenigol i gefnogi datblygiad a darpariaeth y themâu trawsbynciol. Mae pob swydd yn y Swyddfa Rheoli Perfformiad wedi eu llenwi ac mae rhaglen waith yn cael ei datblygu i adnabod ac asesu gofynion cyfarwyddiaeth ar gyfer cefnogaeth y Swyddfa Rheoli Prosiect.

41 Fel cyrff iechyd eraill yng Nghymru, nid oes gan y Bwrdd Iechyd fethodoleg unigol ar gyfer rheoli rhaglenni. Er bod y Bwrdd Iechyd yn annog prosiectau i ddefnyddio methodoleg rheoli prosiect PRINCE neu MSP, mae'n cydnabod bod angen cyflwyno dulliau mwy systematig tuag ar reoli prosiectau ar draws y sefydliad.

42 Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect wedi ceisio sefydlu trefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni er mwyn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ac adrodd i'r Bwrdd Rhaglen Gweithredol. Ers y gwaith a wnaed gennym y llynedd, mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect wedi bod yn datblygu prosesau a threfniadau gan gynnwys:

- Dylunio proses ar gyfer adrodd ariannol - y nod yw sicrhau adrodd ariannol sy'n rheolaidd, yn gyson ac yn amserol ynglŷn â themâu trawsbynciol. Mae crynodeb o'r sefyllfa'n cael ei adrodd i'r pwyllgor cyllid, perfformiad a'r gweithlu yn ogystal â'r Bwrdd.
- Mireinio fformat adroddiadau cryno ymhellach a datblygu adnoddau modelu a thracio i fonitro enillion perfformiad a thargedau ariannol. Mae'r gwaith hwn yn dal i gael ei ddatblygu.

43 Llynedd, fe wnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â threfniadau rhaglen a phrosiectau, ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud ychydig o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r rhain, mae ychydig o'r gwaith yn dal heb ei gwblhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwella'r broses o adrodd a monitro ar gyflawni manteision ac mae wedi ymrwymo i'w wella. Mae gwaith a wnaed i fynd i'r afael â'n hargymhellion yn cynnwys y canlynol:

- Mae fframwaith gwireddu buddion wedi cael ei datblygu a bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer yr wyth rhaglen themâu trawsbynciol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gellir mabwysiadu'r dil hwn mewn modd mwy cyson ar draws y sefydliad er mwyn cefnogi penderfyniadau buddsoddi mewn prosiectau a monitro parhaus o'r buddion a gyflwynwyd.
- Mae cwmpasu prosiectau trawsbynciol bellach yn canolbwyntio mwy ar gerrig milltir, targedau, adolygu a threfniadau adrodd.  Er hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod heriau'n parhau o ran adnabod y broses o drosi prosiectau'n weithgareddau busnes arferol.

44 Fel rhan o'n gwaith cymharol, holwyd cyfres o gwestiynau i aelodau'r Bwrdd ynglŷn â hanes y Bwrdd Iechyd a'r rhagolygon ar gyfer darparu newid strategol yn y dyfodol. Gweler crynodeb o'r canfyddiadau isod:

- Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae fy sefydliad eisoes wedi gwella darpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i Fframwaith Gynllunio'r GIG, roedd dau ymatebydd yn cytuno'n gryf a deg yn cytuno.

- Mewn ymateb i’r datganiad ‘Mae fy sefydliad yn debygol o wella darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol o ganlyniad i’r drefn gynllunio integredig', roedd pedwar ymatebydd yn cytuno'n gryf, chwech yn cytuno a nododd dau ymatebydd nad oeddent yn cytuno na'n anghytuno.
- Pan holwyd aelodau’r bwrdd a oedd gan eu sefydliad hanes o gyflwyno newidiadau i wasanaethau sy’n arwain at welliannau cynaliadwy mewn darpariaeth gwasanaeth, cafwyd dau ymateb yn dweud 'bob amser', a naw ymateb yn nodi 'gan amlaf'. Roedd yr ymatebion yma’n fwy cadarnhaol na chyrff iechyd eraill.

45 Cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio’r GIG ar gyfer 2017-20[8] ym mis Hydref 2016 ac mae’n cynnwys gofynion newydd gan gynnwys yr amgen am strategaeth hir dymor a gofynion penodol yn ymwneud â monitro ac adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig, sef:

- Bydd Llywodraeth Cymru angen diweddariadau chwarterol ar ddarpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig gan fod sefydliad.
- Mae’n rhaid i gyrff GIG sicrhau trefniadau ar gyfer monitro ansawdd a darpariaeth yn unol â’r cynllun yn fisol. Dylid sicrhau’r canlynol o leiaf:
  - bod grŵp gweithredol ar gael i oruchwylio darpariaeth y cynllun; a
  - bod is-bwyllgor bwrdd neu grŵp ar gael i graffu ac i herio cynnydd a pherfformiad yn rheolaidd.
- Dylai’r bwrdd dderbyn asesiad cyffredinol o’r cynnydd yn unol â’r cynllun mewn sesiwn cyhoeddus o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

46 Dylai’r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a ddisgrifiwyd yn gynharach sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion.

47 Bydd y fframwaith gynllunio ar gyfer 2017-20 am y tro cyntaf yn gofyn i bob sefydliad ddatblygu strategaethau tymor hir sy'n gosod cyfeiriad y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Dylai hon fod yn ddogfen ar wahân i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-20, a fydd yn dangos y modd y bydd camau’n cael eu gweithredu yn ystod y cyfnod o dair blynedd i gynorthwyo i gyflawni gweledigaeth hir dymor y sefydliad a amlinellwyd yn y strategaeth. Cyn i ganllawiau penodol gael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhagair newydd yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, fel datganiad cryno o'i fwriad strategol hir dymor a fydd yn ystyried ac yn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

48 Yn 2015 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas ag adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a rheolaeth prosiect. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio’r cynnydd a wnaed.

[8] Fframwaith Cynllunio’r GIG 2017/20 Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/044

Arddangosyn 5: cynnydd yn ymwneud ag argymhellion rheoli prosiectau a rhaglenni

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| A12 2015<br>Datblygu’r canlynol, fel rhan o drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiect:<br>• dulliau a phrosesau gwireddu buddion cadarn a ddefnyddir trwy gydol oes y prosiect;<br>• trefniadau a nodir yn glir er mwyn cefnogi trosiant prosiectau i weithgareddau busnes arferol; a<br>• threfniadau adrodd sy’n gofyn am asesiadau neu werthusiadau o’r buddiannau a sicrhawyd yn ystod oes y prosiectau. | **Ar waith ond heb ei gwblhau hyd yn hyn**<br>Cafwyd cynnydd ynglŷn ag agweddau o'r argymhelliad hwn, er enghraifft, mae fframwaith gwireddu buddion wedi ei ddatblygu ond mae gwaith pellach i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn. |

## Mae trefniadau sicrwydd y bwrdd yn parhau i aeddfedu ac mae pwyllgorau'n gweithredu’n effeithiol ar y cyfan, fodd bynnag, mae angen mwy o amser i ymgorffori newidiadau diweddar i ambell bwyllgor

49 Mae’r canfyddiadau sy’n sylfaen i’r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at fapio sicrwydd a datblygu ei fframwaith sicrwydd y bwyd, effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r adolygiad o gynnydd wrth ymdrin ag argymhellion blaenorol. Gweler ein prif ganfyddiadau isod.

### Mae trefniadau ar gyfer datblygu a sefydlu fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau i aeddfedu, ac er bod bylchau'n dal i fodoli o ran sicrwydd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohonynt ac yn cymryd camau i ymdrin â nhw.

50 Mae gan bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth strwythurau llywodraethu mewn lle er mwyn canfod a darparu sicrwydd ynglyn a’r gwasanaethau a ddarperir, bod risgiau'n cael eu rheoli a bod y sefydliad yn gweithredu'n unol a gofynion cyfreithiol a gofynion eraill. Mae cyrff GIG yn sefydliadau cymhleth ac maent yn gweithredu mewn amgylchedd dynamig. Mae’n bwysig, felly, bod byrddau’n parhau i adolygu eu trefniadau llywodraethu a sicrwydd a'u bod yn fodlon bod y sicrwydd y maent yn ddibynnol arno yn gymesur, wedi'i dargedu'n briodol ac yn ymwneud ag ystod portffolio risg y sefydliad yn gyffredinol.

51 Mae mapio sicrwydd[9] yn adnodd sy'n cael ei ddefnyddio mwy a mwy ar gyfer nodi a mapio'r sicrwydd gofynnol mewn modd systematig ar gyfer risgiau allweddol er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol. Gall y broses mapio gynorthwyo sefydliadau i amlygu unrhyw fylchau mewn sicrwydd, neu ddyblygu prosesau sicrwydd yn ddiangen.

Mae mapio o'r fath yn cynorthwyo llunio fframwaith sicrwydd effeithiol, sy'n unioni risgiau a sicrwydd i'r systemau rheoli a'r trefniadau craffu priodol.

52 Rydym wedi edrych ar ddull y Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r modd y mae hynny'n cymharu â'r dulliau a fabwysiadwyd gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol mewn perthynas â fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Gweler ein prif ganfyddiadau isod.

53 Dechreuodd y Bwrdd ddatblygu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd mewn gweithdy Bwrdd ym mis Rhagfyr 2014 ac fe gymeradwywyd y fframwaith wedyn gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2015. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod fframwaith sicrwydd y bwrdd yn esblygu'n barhaus ac mae'n sicrhau ei fod yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd barn aelodau'r Bwrdd ynglŷn â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol, gyda mwyafrif y rhai a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad. 'Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu ag aelodau'r Bwrdd wrth ddatblygu ac adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn barhaus'.

54 Adolygwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn 2016 yn unol á'r Cynllun Tymor Canolig Integredig diwygiedig, ac fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf a'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig ym mis Awst. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cymryd camau i sicrhau bod archwilio, ac archwilio clinigol yn benodol, yn elfen o'u trefniadau sicrwydd ac maent yn cydnabod bod angen i'r rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol gael eu hunioni'n fwy gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn y dyfodol. Mae'n gadarnhaol fod y Pwyllgor Archwilio wedi awgrymu y dylid cynnal sesiwn datblygu'r Bwrdd yn ymwneud a'r awydd am risg, ond nid yw hwn wedi cael ei weithredu hyd yn hyn.

55 Ffocws penodol o'r adolygiad diweddaraf a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod nodau strategol y Bwrdd fel yr amlinellwyd yn y ei gynllun tymor canolig integredig [10] yn cael eu cysoni'n well. Ei nodau strategol, a gyfeirir atynt fel amcanion craidd, yw:

- gwella ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf;
- diogelu a gwella iechyd y boblogaeth;
- sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn hygyrch ac yn gynaliadwy ar gyfer y defodol;

[9] Trysorlys Ei Mawrhydi, **Fframweithiau Sicrwydd**, Rhagfyr 2012

[10] Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd 2015-2018 a 2016-2019

- darparu llywodraethiant cryf a sicrwydd; a
- sicrhau gofal a thriniaeth i'n cleifion sy'n seiliedig ar werth am arian yn unol â'r adnoddau sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd.

56 Mae amcanion trosfwaol craidd y Bwrdd Iechyd ar lefel uchel, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i bennu'n glir beth yw llwyddiant, yr hyn sydd angen ei wneud i gyflawni'r amcani ac felly'r meysydd sicrwydd gofynnol. Er bod pob aelod o'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo bod y sefydliad wedi cyfathrebu beth sy'n golygu llwyddiant yn unol â'r amcanion, mae lle i'r Bwrdd Iechyd i gynnal adolygiad critigol o'r modd y mae'n cyfathrebu amcanion. Mae sefydliadau sy'n ymddangos yn fwy llwyddiannus o ran datblygu a defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cyfathrebu amcanion mewn modd sy'n darparu digon o fanylder ar eu pen eu hun, a/neu wedi rhannu'r amcanion yn is-amcanion a nodau. Defnyddir y manylder pellach hwn fel sylfaen ar gyfer pennu'r sicrwydd gofynnol.

57 Er bod amcanion strategol y Bwrdd Iechyd ar lefel uchel, mae risg yn berthnasol i bob un sy'n cael eu cyfathrebu'n glir sy'n ei gynorthwyo i bennu'r sicrwydd angenrheidiol i leihau ffactorau sy'n bygwth darparu amcanion penodol yn llwyddiannus. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gall gyfathrebu amcanion yn well ac a yw'n gallu ymgorffori blaenoriaethau o fewn y flwyddyn gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

58 Cadarnhaol yw nodi bod gan y Bwrdd Iechyd amcan yn ymwneud â llywodraethiant a sicrwydd ac adran risg yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a elwir yn Gyfrifoldeb Statudol/Archwiliadau. Mae enghreifftiau o risgiau yn yr adran hon yn cynnwys; Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth a Methu â bodloni Safonau Diogelwch Tân.

59 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i strwythuro o gwmpas pum amcan craidd ac mae pob risg a nodir yn cael ei ddyrannu i bwyllgor arweiniol. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r gwaith monitro sicrwydd cyffredinol i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn edrych ar y trefniadau sydd mewn lle i ddarparu sicrwydd cynhwysfawr a dibynadwy. Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2016, nododd y pwyllgor yn glir ba ddatblygiadau a gwelliannau pellach y byddai'n dymuno eu gweld yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd o ran risgiau a nodwyd a ffynonellau sicrwydd, er enghraifft, cynnwys adnoddau staffio nyrsys fel risg ac archwiliad clinigol a'r Bwrdd Rhaglenni Cyfalaf fel ffynonellau sicrwydd. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y modd y mae'n adolygu ac yn monitro sicrwydd o fewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan nad oes ganddo raglen waith at y dyfodol.

60 Cadarnhaol yw nodi yn ogystal â risgiau gyda ffocws mewnol, mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys nifer o risgiau penodol sy'n cydnabod yr angen i weithio gyda chyrff eraill i gyflawni amcanion gan gynnwys, 'methu â chydweithio'n agos gyda phartneriaid i wella iechyd cyffredinol eu poblogaeth leol' ac i 'barhau i ddatblygu gwasanaethau cwbl integredig gyda'n partneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol a'r trydydd sector, mewn meysydd megis iechyd

cymdeithasol a gwasanaethau galluogi, yn enwedig ar gyfer plant a'r henoed bregus'.

61 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnabod bylchau mewn sicrwydd yn ymwneud â TGCh a llywodraethu mewn partneriaeth, ac mae'n ymdrechu i fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddi’n ymwneud â llywodraethu mewn partneriaeth gyda phartneriaid ac ar lefel Cymru gyfan[11] ac mae Strategaeth TGCh wedi ei datblygu, er nad yw wedi'i chymeradwyo hyd yn hyn, a bydd y swyddogaeth yn adrodd i Gyfarwyddwr Gweithredol newydd. Mae ein gwaith yn ymwneud â TGCh a rheoli gwybodaeth wedi codi nifer o faterion ac rydym yn anelu at ddilyn y rhain i fyny’r flwyddyn nesaf fel rhan o’n gwaith archwilio TGC i asesu'r modd y mae rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn cael eu datblygu a'u rheoli. Roedd un ar ddeg o’r rhai a ymatebodd i’n harolwg aelodau’r bwrdd yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn adnabod y sicrwydd gofynnol er mwyn sicrhau bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

62 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn berchen i’r Bwrdd ac yn cael ystyriaeth ffurfiol gan y Bwrdd bob blwyddyn. Cynllunnir iddo gael ei adrodd i’r Bwrdd ym mis Ionawr 2017, sy’n cydsynio â threfniadau ac amserlen cynllunio tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd.

63 Mae trefniadau rheoli risg presennol yn darparu sylfaen synhwyrol ar gyfer deall ac ymateb i risgiau sefydliadol allweddol, ond bydd angen eu hadolygu unwaith y bydd y strwythur sefydliadol yn cael ei gweithredu a bod y gwaith o gyflwyno’r Modiwl Datix Risk wedi’i gwblhau gyda phob cyfarwyddiaeth yn 2017. Adroddir cofrestr risgiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i’r Bwrdd yn rheolaidd a hefyd i’r Pwyllgor Archwilio. Mae pob risg ar y gofrestr wedi’i ddyrannu i bwyllgor i roi trosolwg a chraffu ac mae crynodeb o gofrestr risg y pwyllgor yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau.

64 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu trefniadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion sy’n peri pryder neu risg yn gallu cael eu dwysáu’n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau adrodd ffurfiol i'r Bwrdd a threfniadau cyfeirio rhwng pwyllgorau yn ogystal â threfniadau llai ffurfio i gynorthwyo i ddwysáu materion yn sydyn ac yn uniongyrchol i’r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd. Roedd mwyafrif aelodau’r bwrdd a ymatebodd i’n harolwg naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad canlynol. 'Mae gen i ddealltwriaeth glir o'r amrediad o gamau gweithredol y mae modd i bwyllgorau neu is-bwyllgorau eu cymryd er mwyn rheoli neu ddwysáu materion'.

65 Yn gyffredinol, mae’r darlun sy’n ymddangos yn dilyn ein gwaith cymharol yn ymwneud â fframweithiau sicrwydd y bwrdd yn dangos fod y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda gyda byrddau iechyd eraill mewn nifer o feysydd gan gynnwys priodoleddau mapio sicrwydd y bwrdd ac ymgysylltu aelodau annibynnol wrth ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

[11] Grŵp Ysgrifenyddion Bwrdd Cymru Gyfan

66 Yn 2015, gwnaethom yr argymhelliad canlynol yn ymwneud â datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhelliad sicrwydd y bwrdd 2015.

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yng nghyd-destun argymhellion 2015 yn ymwneud â fframwaith sicrwydd y bwrdd

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A4 2015<br>Mapio mesurau perfformiad i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn sicrwydd. | **Ar waith ond heb ei gwblhau hyd yn hyn**<br>Er mai'n rhannol yn unig y mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn yr argymhelliad hwn, mae'n credu y bydd datblygu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ymdrin â'r argymhelliad hwn. |

## Mae'r bwrdd a'i bwyllgorau'n gweithredu'n effeithiol ac wedi gwneud gwelliannau o ran tryloywder adroddiadau cyhoeddus, ond bydd angen amser i newidiadau diweddar i'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg ddod yn gwbl effeithiol

67 Fel y llynedd, yn dilyn ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, gwelwyd gwelliant yn y lefel craffu a herio gydag ymateb da ar y cyfan gan Swyddogion Gweithredol. Mae aelodau'r Bwrdd yn credu'n gryf bod diwylliant o dryloywder yn yr Ymddiriedolaeth. Mewn ymateb i'r datganiad canlynol yn ein harolwg 'Mae'r sefydliad wedi gwneud ymdrech bendant i sicrhau agwedd agored a gonestrwydd pob un sy'n ymwneud â darparu sicrwydd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau', roedd pob ymatebydd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.

68 Mae gweinyddiaeth ac ymddygiad y Bwrdd yn effeithiol ac mae prosesau mewn lle i adolygu effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno cyfarfodydd di-bapur, sydd wedi bod yn llwyddiant ac mae nifer o'r defnyddwyr wedi dweud wrthym fod y system yn hawdd i'w defnyddio. Er hynny, mae ambell her yn dal i fod o ran cwrdd ag amserlen y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi papurau pwyllgorau wythnos galendr cyn y cyfarfod. Llynedd, nodwyd risg yr amserlen fyrrach ynghyd â'r effaith posibl ar allu'r pwyllgorau i ystyried adroddiadau. Mae hyn yn dal i fod yn heriol i'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig gan y bydd pedwar aelod annibynnol newydd yn 2017.

69 Mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd gynllun dirprwyo diwygiedig ym mis Ebrill 2016. Mae'r cynllun dirprwyo yn glir ac ni welodd ein gwaith yn ymwneud â chyfrifon 2015-16 unrhyw broblemau penodol yn ei weithrediad. Blwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu'r cynllun fel rhan o adolygiad system gyfan.

70 Yn ystod y flwyddyn, mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull gweithredu tuag ar hunanasesiad pwyllgorau a datblygu rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol fel pwyllgor:

- Mae hunanasesiadau electronig blynyddol bellach yn cymryd lle ar draws pob pwyllgor ac mae gwersi wedi cael eu dysgu, er enghraifft yr angen i sicrhau bod archwilio'n ffynhonnell allweddol ar gyfer sicrwydd. Fodd bynnag, nid yw’n glir a oes gwerthusiad cyffredinol yn cael ei gynnal er mwyn adnabod unrhyw wersi a ellir ei rannu ar draws pob pwyllgor. Mae'r Bwrdd yn hunanasesu yn unol â'r modiwl llywodraethu ac atebolrwydd. Mewn ymateb i’r datganiad canlynol yn ein harolwg aelodau’r bwrdd 'Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu effeithiol ar gyfer asesu effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau', gwelwyd bod pedwar ymatebydd yn cytuno'n gryf ac wyth yn cytuno.
- Mae rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol wedi cael eu datblygu ar gyfer pob pwyllgor heblaw'r Pwyllgor Archwilio. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ystyried bod agenda ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn ddigonol fel bod ganddo raglen strwythuredig yn seiliedig ar raglenni archwilio mewnol ac allanol. Fodd bynnag, byddem yn argymell y dylid datblygu rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y pwyllgor hwn, yn benodol er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i gynllunio ac i amserlennu eu gofynion ar gyfer adroddiadau diweddaru at y dyfodol. Yn ehangach, mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y cyfle i ddefnyddio cynlluniau gwaith i nodi bylchau sicrwydd ar y cyd yn ei Bwyllgor Llywodraethu Integredig.

71 Yn achlysurol, bydd y Bwrdd Iechyd defnyddio grym i godi eitemau eithriadol i’w trafod yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, gwelsom broblem benodol lle nad oedd cyfres o gofnodion y bwrdd yn cofnodi'r drefn i'w dilyn er mwyn gwneud penderfyniadau yn y modd cywir nac yn gynhwysfawr.
Roedd y penderfyniad yn ymwneud â gofal nyrsio wedi’i ariannu, ac er ei fod wedi cael ei wneud yn unol â’r drefn briodol, nid oedd y cofnodion yn cofnodi sut y cafodd y penderfyniad ei wneud, h.y. cafodd ei gynnig a’i eilio. Codwyd hyn gyda’r Bwrdd Iechyd ac maent wedi cymryd camau i ymdrin â hyn. Byddwn yn dilyn y pwynt yma'r flwyddyn nesaf fel rhan o'n gwaith archwilio parhaus.

72 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwella tryloywder o ran adroddiadau cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn, gweithredwyd templed diwygiedig ar gyfer adrodd i'r bwrdd. Ffactor allweddol yw’r Statws Rhyddid Gwybodaeth y mae’r Bwrdd yn credu sy’n hanfodol cyn sicrhau bod papurau pwyllgorau ar gael yn gyhoeddus. Mae adolygiad o bapurau pwyllgorau’n dangos bod y templed newydd yn cael ei ddefnyddio fwy a mwy. Fodd bynnag, nid yw ambell adroddiad diweddar i ambell bwyllgor wedi defnyddio’r templed adroddiadau. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o’r templed adroddiadau wrth i bolisïau a chynlluniau gael eu hadrodd i’r pwyllgorau er mwyn cyfathrebu’n glir beth yw'r weithred angenrheidiol gan yr aelodau.

73 Ers mis Hydref 2016, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud papurau pob pwyllgor yn gyhoeddus ar ei wefan. Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol gan mai papurau'r Bwrdd yn unig oedd a wnaed yn gyhoeddus yn flaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio gwella hygyrchedd ymhellach trwy sicrhau bod papurau pwyllgorau ar gael ar y wefan cyn i'r cyfarfodydd gael eu cynnal.

74 Cynhaliwyd adolygiad o wefan y Bwrdd iechyd gennym er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Cylchlythyr Iechyd Cymru[12] yn ymwneud â chyhoeddi a chyrchu gwybodaeth. Mae'r Cylchlythyr yn cynnwys gweithredoedd sy'n gofyn am gydymffurfiaeth yn ogystal ag argymhellion i'w hystyried:

- Cam gweithredu sy'n gofyn am gydymffurfiaeth – mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r gofynion.
- Argymhelliad ar gyfer ystyriaeth - o'r pedwar eitem a nodwyd, ni chawsom hyd i dystiolaeth o ddau ohonynt (polisi amser hyblyg ar gyfer ymwelwyr a pholisi hawliau dynol na pholisi iechyd a diogelwch). Mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych yr eitemau hyn.

75 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen o sesiynau datblygu'r bwrdd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Mae'r sesiynau hyn wedi ymwneud ag amrediad o bynciau megis ymateb i ddeddfwriaeth newydd, Safonau Iechyd a Gofal (gan gynnwys yr hunanasesiad llywodraethu a sicrwydd), Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Ymgysylltiad Gweithwyr Cyflogedig a Chynllun Tymor Canolig Integredig. Ceir hefyd rhai pynciau a nodwyd ar gyfer sesiynau yn y dyfodol gan gynnwys yr awydd am risg a rôl cadeirydd pwyllgor ac aelodau annibynnol.

76 Er i'r dull gweithredu gael ei fabwysiadu gan y Bwrdd, roedd ein harolwg o aelodau'r Bwrdd yn adrodd ymateb cymysg i'r datganiad canlynol 'Mae'r rhaglen datblygu'r Bwrdd yn cefnogi sgiliau a hyder aelodau'r bwrdd wrth ymdrin â sicrwydd yn effeithiol a chraffu ar ddarpariaeth yng nghyd-destun amcanion', gydag un o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf, saith yn cytuno, tri nad oeddent yn cytuno nag yn anghytuno ac un yn anghytuno.

77 Ym mis Ebrill 2016 ymunodd tri Aelod Annibynnol newydd ac roedd yr anwythiad yn cynnwys elfennau strwythuredig yn ogystal ag elfennau wedi'u teilwra ar gyfer yr unigolion unigol. Cafodd pob aelod annibynnol newydd eu paru gyda mentor. Adroddwyd i ni fod yr anwythiad yn hyblyg ac yn ymateb i ofynion aelod newydd ei benodi.

[12] WHC/2016/033 – Cyhoeddi  gwybodaeth ar wefannau Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG. Pwrpas Cylchlythyr Iechyd Cymru yw i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefannau cyhoeddus y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaeth GIGI ac i sicrhau bod y wybodeth yn hygyrch.

78 Mae cyfnod gweithredol pedwar aelod unigol yn dod i ben yn ystod 2017 gan gynnwys y Cadeirydd. Mae'r Cadeirydd wedi bod yn canolbwyntio ar faterion olyniaeth posibl ac mae wedi cynnal nifer o strategaethau gan gynnwys cyfleoedd cysgodi ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau'r dyfodol ac ymestyn cyfnodau gweithredol lle bo hynny'n briodol. Mae'r Cadeirydd hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am benodi aelodau annibynnol, er mwyn edrych ar gyfleoedd ar gyfer ei olynydd a'r posibilrwydd iddynt fod yn rhan o'r broses o recriwtio aelodau newydd yn ystod 2017.

79 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y meysydd y mae angen atgyfnerthu effeithiolrwydd gweithredol rhai o'i bwyllgorau ac yn cydnabod bod rhai pwyllgorau'n dal i ddatblygu, er enghraifft y Pwyllgor Gofal Cynradd. Mae wedi adolygu ac atgyfnerthu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio ond bydd angen sicrhau yn 2017 bod o leiaf un Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio yn meddu ar brofiad ariannol perthnasol diweddar. Mae lefel her a chraffu'r Pwyllgor Archwilio'n gwella ac mae'n cefnogi trefniadau llywodraethiant a rheolaeth fewnol y sefydliad.

80 Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adolygu ei drefniadau llywodraethu gan gynnwys yr adolygiad parhaus o'i bwyllgor ansawdd a diogelwch. Yn debyg i fyrddau iechyd eraill, cafwyd heriau gyda'r pwyllgor hwn o ran maint yr agendâu a sefydlu strwythur gefnogi sy'n hwyluso llif gwybodaeth briodol i'r pwyllgor. Yn ystod y gwaith o adolygu'r pwyllgor, penderfynodd y Bwrdd Iechyd gyfuno'r pwyllgorau ansawdd a diogelwch a'r pwyllgor risg gorfforaethol gyda'r bwriad o leihau dyblygu a gwella effeithiolrwydd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg ym mis Hydref 2016. Mae aelodaeth y pwyllgor wedi'i gyfyngu i Aelodau Annibynnol gyda swyddogion yn bresennol, penderfyniad sy'n bwriadu gwella'r broses craffu ac atebolrwydd. Mae strwythur gefnogi newydd yn cael ei datblygu sy'n cynnwys grŵp llywio gwella ansawdd, a grŵp sicrhau ansawdd, ac amrediad o is-grwpiau eraill. Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, nid oedd y trefniadau cefnogi wedi cael eu cytuno'n llawn a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gytuno a gweithredi'r strwythurau mewn modd amserol a'u hadolygu'n ffurfiol ym mis Hydref 2017 fel y cytunwyd. Mae'n rhy fuan i asesu effeithiolrwydd y pwyllgor a byddwn yn adolygu ei lywodraethu a'i weithrediad fel rhan o'n gwaith archwilio'r flwyddyn nesaf.

81 Yn 2015, gwnaethom yr argymhellion canlynol yn ymwneud ag effeithiolrwydd y bwrdd a'i bwyllgorau. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhellion effeithlonrwydd y bwrdd a phwyllgorau 2015

Mae’r tabl isod yn disgrifio’r cynnydd a wnaed yng nghyd-destun argymhellion 2015 yn ymwneud ag effeithiolrwydd y bwrdd a’i bwyllgorau.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| A3 2015<br>Adolygu cynnwys y wefan mewn perthynas â dogfennau a chynlluniau corfforaethol allweddol er mwyn sicrhau bod fersiynau presennol wedi'u nodi’n glir er mwyn gwella hygyrchedd gan aelodau'r cyhoedd. | **Wedi’i gwblhau**<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi creu gwefan newydd yn annibynnol ac mae dogfennau a chynlluniau corfforaethol yn hygyrch.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru[13]. |
| A6 2015<br>Datblygu a sefydlu rhaglennu gwaith ar gyfer y dyfodol ym mhob is-bwyllgor a grŵp sy’n cefnogi’r Bwrdd. | **Wedi’i gwblhau**<br>Mae rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol wedi cael eu datblygu ar gyfer pob pwyllgor heblaw'r Pwyllgor Archwilio. Cânt eu defnyddio i gynllunio agenda a chânt eu hadolygu ym mhob cyfarfod.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai’r cam nesaf ar gyfer datblygu yw rhaglennu gwaith gael eu hadolygu gyda'i gilydd ar draws pwyllgorau er mwyn gwella trefniadau sicrwydd. |
| A8 2015<br>Datblygu cynllun olyniaeth ar gyfer y garfan bresennol o Aelodau Annibynnol a datblygu trefniadau anwytho cyn i gyfnodau gweithredol ddod i ben. | **Wedi’i gwblhau**<br>Arweinir trefniadau anwytho gan Gadeirydd y Bwrdd ac maent yn cael eu teilwra i ymateb i ofynion Aelodau unigol o'r Bwrdd.<br>Mae heriau pellach yn wynebu'r Bwrdd wrth i gyfnodau gweithredol pedwar aelod annibynnol o'r Bwrdd ddod i ben yn 2017 gan gynnwys y Cadeirydd. |
| A9 2015<br>Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau l unffurf arfer gweithredol unffurf ar draws pob pwyllgor o ran cadeirio a chraffu. | **Ar waith ond heb ei gwblhau hyd yn hyn**<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei Arddull Tŷ, wedi mabwysiadu trefniadau cynllunio agenda mwy rhagweithiol ar draws pob pwyllgor ac wedi sefydlu sesiynau briffio i’r cadeirydd. Mae'r Cadeirydd hefyd yn arsylwi pwyllgorau'n rheolaidd ac yn darparu adborth yn ogystal ag arfarniad blynyddol y Cadeirydd o aelodau annibynnol.<br>Mae heriau pellach yn wynebu'r Bwrdd wrth i gyfnodau gweithredol pedwar aelod annibynnol o'r Bwrdd ddod i ben yn 2017 gan gynnwys y Cadeirydd. |

[13] gweler Troednodyn 12

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A10 2015<br>Ystyried a ddylid sicrhau bod o leiaf un Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio yn meddu ar brofiad ariannol perthnasol diweddar. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried gwneud trefniadau eraill, megis penodi swyddog gweithredol cysylltiol gyda'r profiad perthnasol hwnnw. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu cylch gorchwyl a'r aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Aelod Annibynnol (Cyllid) arweiniol bellach yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.<br>Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod o leiaf un aelod annibynnol yn meddu ar brofiad ariannol perthnasol diweddar gan fod cyfnod gweithredol yr aelod presennol yn dod i ben yn 2017. |
| A11 2015<br>Datblygu proses er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru cyn mis Ionawr 2014 sydd yn parhau i fod yn ddilys yn cael eu monitro'n briodol. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae adnodd olrhain Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys pob argymhelliad sydd heb ei gwblhau ac yn cyflwyno adroddiad yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. |

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig 2015 ond mae'r cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio eraill yn ymwneud â rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn araf

82 Mae ein gwaith archwilio strwythuredig yn 2016 wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r 12 argymhelliad a wnaed y llynedd yn ogystal â'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau archwilio eraill. Mae argymhellion yn ymwneud â chynllunio ariannol, rheoli perfformiad ac adrodd, effeithlonrwydd y bwrdd a fframwaith sicrwydd y bwrdd wedi cael eu disgrifio yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig 2015 ac yn cydnabod bod ychydig o'r gwaith yn parhau. O'r 12 argymhelliad mae saith wedi'u cwblhau ac mae'r gweddill ar waith, ond mae tri argymhelliad wedi mynd tu hwnt i'r dyddiad cwblhau gwreiddiol. Gwelsom fod y wybodaeth olrhain a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2015 yn unol â'n hasesiad o'r cynnydd a wnaeth mewn perthynas â'r 12 argymhelliad yn ein hasesiad strwythuredig.

83 Yn ogystal ag adolygu’r camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin â’n hargymhellion asesiad strwythuredig yn 2015, bûm hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion o'n hadroddiadau archwilio eraill. Mae’r Pwyllgor Archwilio’n cyflwyno adroddiad olrhain argymhellion sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed yn ôl pob un o'n hargymhellion. Yn ogystal, cynhyrchir adroddiad olrhain cryno sy’n nodi nifer yr argymhellion a wnaed, y nifer a gyflawnwyd, nifer y rhai sydd heb eu cwblhau, nifer y rhai nad yw'r dyddiad cau wedi cyrraedd a'r nifer sydd wedi mynd tu hwnt i'r dyddiad. Caiff yr adroddiadau olrhain eu hystyried ym mhob cyfarfod pwyllgor archwilio a chânt eu defnyddio i herio cyflymder y cynnydd a wneir. Mae’r pwyllgor yn monitro argymhellion sydd â risgiau canolig ac uchel lle bo'r dyddiadau gweithredu wedi mynd heibio a bod angen i'r Cyfarwyddwr Gweithredol fynychu'r Pwyllgor i egluro unrhyw oedi.

84 Ym mis Hydref 2016, nodwyd yn yr adroddiad olrhain a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio bod 27 o'r 126 o argymhellion wedi mynd heibio i'r amser y cytunwyd yn wreiddiol i'w cwblhau. Roedd naw ohonynt yn perthyn i’n hadroddiad rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd edrych ar gyflymder y modd y maent yn ymdrin â'r argymhellion hyn gan eu bod yn gysylltiedig â gweithgareddau busnes allweddol ac mae hefyd wedi cael ei gydnabod gan y Bwrdd Iechyd fel risg.

85 Mewn ymateb i'r datganiad canlynol yn ein harolwg aelodau'r Bwrdd 'Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'n amserol ac yn briodol mewn ymateb i ganfyddiadau adolygu ac archwilio allanol', roedd wyth ymatebydd yn cytuno'n gryf a phedwar yn cytuno.

86 Er bod adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn derbyn y sylw angenrheidiol ym mhwyllgorau'r bwrdd, mae'r darlun yn llai cyson o ran adroddiadau a gynhyrchir gan yr Uned Gyflawni, sy'n nodweddiadol yn adnabod cyfleoedd ac argymhellion pwysig er mwyn atgyfnerthu darpariaeth weithredol. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn derbyn y proffil a'r sylw angenrheidiol o fewn trefniadau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad, ond fe nodwyd bod rhai o adroddiadau diweddar yr Uned Gyflawni wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a’r Gweithlu.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016

Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei gynnwys unwaith y bydd y templed ymatebion wedi ei gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol sydd i gael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith y bydd yr adroddiad wedi derbyn ystyriaeth gan y bwrdd neu gan un o bwyllgorau perthnasol y bwrdd.

### Arddangosyn 8: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu argymhellion 2016 ac ymateb y rheolwyr.

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**<br>Er mwyn adnabod gofynion sicrwydd y bwrdd yn well, rhowch ystyriaeth i'r canlynol:<br>• cyfathrebu amcanion strategol yn fwy clir gan ddefnyddio is-amcanion neu nodau; a<br>• chynnwys blaenoriaethau Cynllun Tymor Byr Integredig yn ystod y flwyddyn | Gwell sylfaen ar gyfer pennu'r sicrwydd gofynnol er mwyn darparu amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus. | Ydi | Do | Bydd Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad wrth iddo ddatblygu diweddariad o Gynllun Tymor Byr Integredig Bwrdd Iechyd y Brifysgol ar gyfer 2017-2020 | Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad /<br><br>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | **Pwyllgor Archwilio**<br>Dylai'r Pwyllgor Archwilio:<br>• sicrhau bod ganddo drefniadau priodol mewn lle er mwyn adolygu a monitro sicrwydd yn rheolaidd o fewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd; a<br>• datblygu rhaglen waith ar gyfer y dyfodol er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i gynllunio ac amserlennu cyfarfodydd. | Trefniadau sicrwydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. | Ydi | Do | Mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd y Pwyllgor Archwilio'n adolygu'r Fframwaith Sicrwydd ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegol i'r ystyriaeth flynyddol gan y Bwrdd. | Adolygu'r dull gweithredu ym mis Gorffennaf 17 (fel rhan o'r gwaith i gwblhau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor) | Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |
| | | Gwell rheolaeth o ran cynllunio ac agendâu. | Nac ydi | Do | Bydd y Pwyllgor Archwilio yn datblygu cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol. | Chwefror 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | **Effeithlonrwydd pwyllgorau**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:<br>• bod pob adroddiad i'r Bwrdd a phwyllgorau'n mabwysiadu'r templed adroddiadau diwygiedig; a<br>• bod y templed adroddiadau'n cael ei ddefnyddio i gyfathrebu pwrpas yr adroddiad yn glir ynghyd â'r weithred/penderfyniad gofynnol pan fo cynlluniau a pholisïau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau. | Gwell cysondeb a chydymffurfiaeth gyda gofynion Arddull Tŷ'r Bwrdd Iechyd.<br>Gwell eglurdeb o ran yr hyn sy'n ofynnol gan y Bwrdd a'r pwyllgorau | Nac ydi<br><br>Ydi | Do<br><br>Do | Mae mwyafrif helaeth papurau'r Bwrdd / Is-Bwyllgorau'n cael eu datblygu gan ddefnyddio'r templed a gytunwyd. Byddwn yn parhau i sicrhau cysondeb.<br><br>Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu'r argymhelliad hwn a bydd adolygiad parhaus yn cael ei gynnal trwy'r Gwasanaethau Corfforaethol / Ysgrifenyddiaeth | Parhaus<br><br>Parhaus | Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu<br><br>Pob Cyfarwyddwr<br>ac<br>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | **Effeithlonrwydd pwyllgorau**<br>Cwblhau llunio a gweithrediad y strwythurau cefnogi ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg sydd newydd ei greu. | Gwell dealltwriaeth o'r trefniadau a'r sicrwydd a ddarperir gan gydrannau gwahanol o'r strwythur cefnogi.<br><br>Mae'r rhai sydd yng ngofal llywodraethu'n derbyn sicrwydd y bydd y pwyllgor yn gweithredu'n ôl y bwriad. | Ydi | Do | Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn sicrhau bod is-strwythurau ar gyfer y Pwyllgor yn cael eu datblygu a'u bod mewn lle i gynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â gwaith y Pwyllgor Bwrdd Iechyd pwysig hwn.<br><br>Mae cyfnod adolygu wedi'i gytuno gyda Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr. | Ebrill 2017<br><br>Mehefin 2017 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chleifion<br>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chleifion<br>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | **Adroddiadau Allanol**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau o'r Uned Gyflawni yn destun i drefniadau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. | Gwell trefniadau llywodraethu a sicrwydd. Mae'r rhai sydd yng ngofal llywodraethu'n cael mwy o wybodaeth ynglŷn ag adroddiadau allanol. | Ydi | Do | Bydd y Cyfarwyddwr arweiniol, yn dilyn trafodaeth gydag Ysgrifennydd y Bwrdd, yn cytuno ar gyfeiriad llywodraethu perthnasol ar gyfer adroddiadau'n ymwneud â'r Uned Gyflawni. | Parhaus | Pob Cyfarwyddwr<br>ac<br>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | **Dilyniant ar y cyd o archwiliadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg**<br>Edrych ar ba mor sydyn yr ymdrinnir ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg sydd heb eu cyflawni hyd yn hyn. | Cyflawni'r manteision fel y maent wedi'u gosod yn yr adroddiad gwreiddiol. | Ydi | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i gyflymu'r gwaith o gyflawni argymhellion yn ymwneud â TGCh. Bydd mynd â'r strwythur rheolaeth yn ei blaen, ailosod y portffolio Cyfarwyddwyr a gweithredu'r Strategaeth TGCh yn cynorthwyo i fynd i'r afael â'r cynnydd gofynnol. | Ebrill 2017<br>(Pwyllgor Gweithredol i arwain/ Strwythur Rheolaeth a chamau gweithredu TGCh nad ydynt wedi'u cyflawni hyd yn hyn)<br><br>Bydd taflwybr hirach i weithredu'r Strategaeth TGCh | Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer TGCh |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | **Rheolaeth ariannol**<br>Atgyfnerthu trefniadau presennol ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol trwy:<br>• gytuno ar swyddi a chyfrifoldebau staff sy'n arwain ar y themâu trawsbynciol ar gyfer arbedion ariannol; a<br>• chytuno ar ymagwedd a chylch gorchwyl cyson ar gyfer Cyfarfodydd Busnes Clinigol yn unol ag argymhelliad Archwiliad Mewnol | Mwy o eglurdeb o ran rôl a chylch gorchwyl ffactorau rheolaeth allweddol dros gyflawni arbedion | Ydi<br><br>Ydi | Do<br><br>Do | Cytunwyd. Bydd yn cael ei drafod gyda threfniadau 2017/18 ar gyfer cymeradwyo cwmpasau'r themâu trawsbynciol a chynlluniau gweithredi.<br><br>Bydd y Grŵp Gweithredol yn datblygu cylch gorchwyl cyffredinol ar gyfer y Cyfarfodydd Busnes Clinigol. | 2017/18<br><br>Ebrill 2017 | Pob Cyfarwyddwr<br>ac<br>Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu |

| Cyf: | Argymhelliad: | Y canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd Do/Naddo | Ymateb Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A8 | **Perfformiad ariannol**<br>Atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynlluniau cynilo yn erbyn targedau gan sicrhau bod atebolrwydd, dealltwriaeth ac adroddiadau clir i egluro pam na chafodd arbedion eu gwneud. | Lleihau'r risg o beidio â chyflawni cynlluniau cynilo | Ydi | Do | Cytunwyd. Bydd yn cael ei drafod gyda chofnodi ariannol 2017/18.<br><br>Mae'n bwysig nodi datblygiad 'drafft' o Fframwaith Rheoli Perfformiad Bwrdd Iechyd y Brifysgol, a fydd yn cael ei gwblhau yn unol â strwythurau rheolaeth diwygiedig. | 2017/18<br><br>2017/18 | Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad / |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru